# CYNLLUNIAU MARCIO TGAU

**HYDREF 2022**

**TGAU**
**CYMRAEG IAITH - UNED 2**
**3000N20-1**

© WJEC CBAC Cyf.

## RHAGARWEINIAD

Defnyddiwyd y cynllun marcio hwn gan CBAC ar gyfer arholiad 2022. Penderfynwyd arno'n derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynadleddau arholwyr gan yr holl arholwyr oedd yn ymwneud â'r asesiad. Cynhaliwyd y gynhadledd yn fuan ar ôl sefyll y papur fel y gellid cyfeirio at yr amrediad llawn o ymatebion ymgeiswyr, gyda sgriptiau wedi'u llungopïo yn sail i'r drafodaeth. Amcan y gynhadledd oedd sicrhau bod y cynllun marcio wedi'i ddehongli a'i gymhwyso yn yr un modd gan yr holl arholwyr.

Gobeithir y bydd y wybodaeth hon o gymorth i ganolfannau ond cydnabyddir ar yr un pryd y gallai fod gan athrawon safbwyntiau gwahanol ynglŷn â manylion neu ddehongli gan nad ydynt wedi bod yn rhan o'r gynhadledd farcio.

Mae'n flin gan CBAC ond nid oes modd iddo ymgymryd ag unrhyw drafodaeth na gohebiaeth am y cynllun marcio hwn.

© WJEC CBAC Cyf.

## CYNLLUNIAU MARCIO TGAU

## CYMRAEG IAITH - UNED 2

## HYDREF 2022

**Darn Darllen 1 Miliwn o Siaradwyr: 2050**

**A1.** Edrychwch ar Siart 1. Faint o siaradwyr Cymraeg mae'r siart yn ei ragdybio fydd yng Nghymru yn y flwyddyn 2051? [1]

Miliwn / 1,000,000
Adalw gwybodaeth

**A2**. Edrychwch ar Siart 2. Ym mha awdurdod yr oedd y ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg yn byw yn 2018? [1]

Gwynedd ✓
Adalw gwybodaeth

**Darn Darllen 2 'Pont Trefechan'**

**A3.** Darllenwch y gosodiadau isod yn ofalus a nodwch a ydyn nhw'n gywir neu'n anghywir drwy roi ✓yn y blwch priodol. [2]

| | **Cywir** | **Anghywir** |
|---|---|---|
| Cafodd darlith Tynged yr Iaith ei thraddodi gan Saunders Lewis yn 1963. | | ✓ |
| Mae Pont Trefechan yn sir Ceredigion. | ✓ | |
| Sefydlwyd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg o ganlyniad i'r brotest ar Bont Trefechan. | | ✓ |
| Roedd y mwyafrif o'r myfyrwyr yn y brotest yn fyfyrwyr yng Ngholeg Bangor. | | ✓ |

**0 marc** 0/1 yn gywir
**1 marc** 2/3 yn gywir
**2 farc** 4 yn gywir

Dehongli gwybodaeth

**A4.** Nodwch un peth a ddigwyddodd o ganlyniad i ymgyrch Cymdeithas yr Iaith Gymraeg. [1]

Un marc am nodi:
naill ai:
- Arwyddion ffyrdd dwyieithog

neu
- Statws cyfartal i'r Gymraeg

Dehongli gwybodaeth



© WJEC CBAC Cyf.

**Darn Darllen 3 'Aberth Fawr Teulu'r Beasley'**

**A5.** Edrychwch ar y geiriau sydd mewn print trwm yn y frawddeg isod: [1]

'Roedd Mam **yn berwi** pan fu'r beilïaid mor ddigywilydd â gofyn iddi a oedd ganddi ddarn o linyn iddyn nhw glymu'r carped i'w gludo i ffwrdd!'

Beth yw'r nodwedd arddull a ddefnyddir gan yr awdur? Rhowch ✓ yn y blwch wrth ochr yr ateb cywir.

Trosiad ✓
Adnabod nodwedd/techneg arddull

**A6.** Beth mae'r nodwedd yn ei ddweud wrthym ni am ymateb ei mam i'r beilïaid? [2]

Esboniad sy'n awgrymu'r canlynol:
- Y fam wedi gwylltio
- Wedi cyrraedd pen ei thennyn
- Wedi cael llond bol
- Y fam yn flin
- Methu credu ymddygiad y beilïaid
- Teimlo ei bod hi'n cael eu sarhau

| | |
|---|---|
| **0 marc** | Dim i'w wobrwyo/wedi camddeall ystyr/bwriad y nodwedd. |
| **1 marc** | Esboniad ar lefel syml ac yn fyr/arwynebol. |
| **2 farc** | Esboniad manwl o'r hyn a ddywed y nodwedd wrthym gyda'r drafodaeth yn argyhoeddi. |

Dehongli ac esbonio

**A7.** Eglurwch beth yw arwyddocâd y teitl 'Aberth Fawr Teulu'r Beasley'.
Defnyddiwch dystiolaeth o'r darn darllen er mwyn cefnogi eich sylwadau. [3]

**Gellir cyfeirio at y canlynol:**
- Bodlon mynd heb ddim er lles y Gymraeg
- Eraill yn elwa oherwydd eu haberth
- Gwneud safiad
- Aberthu er mwyn ennill rhywbeth sy'n fwy gwerthfawr e.e bil treth dwyieithog
- Yr wyrion yn parablu llond pen o Gymraeg - yr aberth wedi talu ar ei chanfed
- Dioddef – y plant yn dioddef, gorfod gadael eu rhieni
- Colli pethau – eiddo, pethau personol, pethau oedd yn rhan o'u gwreiddiau, cysuron e.e. carped
- Gallu achosi tristwch er nad oedd Delyth yn teimlo'n drist.

| | |
|---|---|
| **0 marc** | Dim i'w wobrwyo |
| **1 marc** | Esboniad cryno a sylfaenol/esboniad o ran o'r teitl |
| **2 farc** | Esboniad sy'n dangos dealltwriaeth da o'r teitl |
| **3 marc** | Dealltwriaeth aeddfed ac esboniad manwl o arwyddocâd y teitl |

Dehongli/esbonio


© WJEC CBAC Cyf.

**A8.** Sut mae Delyth Prys yn disgrifio brwydr Eileen a Trevor Beasley? [5]

| | |
|---|---|
| **0 marc** | Heb ymgeisio / ateb amherthnasol |
| **1 marc** | Gallu cyfeirio at ambell nodwedd / ffaith o'r darn darllen sy'n dangos bwriad yr awdur gan ddyfynnu |
| **2 farc** | Ymdrech eithaf da i drafod arddull / technegau a ddefnyddir yn y testun gan gynnwys ambell enghraifft / dyfyniad a dechrau dadansoddi |
| **3 marc** | Trafod yn dda sawl nodwedd o'r darn darllen gan ddyfynnu a dadansoddi'n dda |
| **4 marc** | Trafod yn dda iawn sawl nodwedd o'r darn darllen gan ddyfynnu a dadansoddi'n dda iawn |
| **5 marc** | Ateb manwl sy'n trafod yn ddeallus nodweddion arwyddocaol yn y darn gan ddyfynnu a dadansoddi'n hyderus |

✓ - techneg a'i dyfynnu
d - dehongli

Gellir cyfeirio at y canlynol:

- Person cyntaf - cyflwyno profiad personol/ o lygad y ffynnon
- Ailadrodd - ''gwrthod rhoi bil treth...gwrthod talu"
- Rhestru "*y 3 piece suite*, y ddesg…"
- Dyfyniad/Deialog Eileen Beasley - ceisio cysuro/gwarchod y plant.
- Trosiad - "Roedd mam yn berwi…"/ "cist o drysorau…"
- Defnydd o ebychnodau
- Ansodderiau - y jam yn "un rhes unig…", "mor syml…", "rhyfedd...anghyfiawn"
- Brawddeg ar ei phen ei hun / Brawddeg unigol.
- Ymadrodd - 'parablu llond pen o Gymraeg'

(Dadansoddi/Gwerthuso)

**Darn Darllen 4 'Greta: Gelyn y Gwrthamgylcheddwyr'**

**A9.** Ym mha flwyddyn y dechreuodd Greta Thunberg ei hymgyrch yn erbyn newid hinsawdd? Rhowch ✓ yn y blwch wrth ochr yr ateb cywir. [1]

2018 ✓
Adalw gwybodaeth

**A10.** Pa ymadrodd yn y darn isod sy'n golygu bod Greta wedi gwneud y penderfyniad i ddelio â'r broblem hon yn ei ffordd ei hun?
Tanlinellwch yr ymadrodd. [1]

Felly, mae Greta wedi <u>torri cwys wahanol</u> ac wedi defnyddio ei llais i'n cynrychioli a dangos i'r byd ein bod yn ymwybodol o'r argyfwng mae'r blaned yn ei wynebu.

Deall ystyr ymadrodd/idiom



© WJEC CBAC Cyf.

**Darn Darllen 4 a 5 ‘Greta: Gelyn y Gwrthamgylcheddwyr’**
**Malala: Mewn undeb mae nerth**

**A11.** **Cymharwch** brofiadau a dylanwad Greta Thunberg a Malala Yuasafzai wrth iddynt fynd ati i ymgyrchu. Cofiwch ddefnyddio tystiolaeth o’r darnau darllen i gefnogi’ch ateb. [7]

| **Greta Thunberg** | **Malala Yusafai** |
|---|---|
| Merch ysgol/ifanc sy’n ymgyrchu. | Merch ysgol/ifanc sydd wedi bod yn ymgyrchu. |
| Byw yn Sweden | Byw ym Mhacistan |
| Greta’n dioddef yn eiriol gan arweinwyr byd a gohebydd newyddion. | Malala wedi dioddef trais/ymosodiad yn sgil ei phrotestiadau |
| Ymgyrchu dros hawliau /diogelwch y blaned | Ymgyrchu dros hawliau merched/hawl i ferched ysgol gael addysg ym Mhacistan |
| Herio arweinwyr byd | Herio arweinwyr byd |
| Wedi ysbrydoli eraill i brotestio gyda hi | Protest bersonol un ferch yn erbyn y sefydliad oedd hon |
| Ei llais hi’n cynrychioli teimladau nifer fawr o bobl ifanc | Ei llais hi yn cynrychioli nifer fawr o bobl |
| Unigolion mewn sawl gwlad bellach yn protestio ar ddydd Gwener - y brotest yn enwog ledled y byd | Malala yn enwog ledled y byd |
| Greta eisiau gwneud gwahaniaeth | Malala eisiau gwneud gwahaniaeth |

Gellir cyfeirio at bwyntiau eraill perthnasol

| | |
|---|---|
| **0 marc** | Heb ymgeisio/ateb amherthnasol |
| **1 marc** | Ateb syml sy’n dangos y gallu i dynnu ambell ffaith o’r darnau darllen |
| **2 marc** | Dechrau cymharu’n fwriadol y ddau brofiad ond heb ymgais i ddehongli |
| **3 marc** | Cymharu’n fwriadol y ddau brofiad gydag ymgais arwynebol i ddechrau dehongli’r profiadau hynny |
| **4 marc** | Gwybodaeth gymharol gyson am y ddau brofiad a dehongli’n eithaf da |
| **5 marc** | Ateb manwl sy’n cymharu’n hyderus ac yn dehongli’n dda |
| **6 marc** | Ateb manwl sy’n cynnwys gwybodaeth fanwl, ac weithiau’n heriol, am y ddau brofiad gan gymharu’n effeithiol; dehongli yn dda iawn |
| **7 marc** | Dethol gwybodaeth berthnasol, yn aml yn heriol, yn ddeheuig gan ddehongli’n aeddfed a chymharu’n effeithiol |

Dehongli/Cymharu/Dod i gasgliad



© WJEC CBAC Cyf.

**A12. Golygu (5 marc)**

(i) Darllenwch y frawddeg isod a dewiswch y gair sydd fwyaf addas drwy roi ✓ yn y blwch priodol**.** [1]

Mae'n rhaid i chi gofio............pob gwall er mwyn cyflwyno'r gwaith yn berffaith i'r athro.

Dileu ✓

(ii) Darllenwch y frawddeg isod. Mae angen i chi ddewis **un pâr** o eiriau o'r rhestr sy'n dilyn i lenwi'r bylchau yn y frawddeg. Rhowch ✓yn y blwch priodol i ddangos y pâr o eiriau sy'n addas i'r frawddeg. [2]

Dyma'r dasg……….........hyd yn hyn ………………dim rhaid i mi feddwl llawer wrth ateb y cwestiynau.

hawsaf …Does ✓

(iii) Dewiswch **ddau** air o'r rhestr ganlynol a'u gosod yn y bylchau priodol. [2]

**hynaf** **hŷn** **hyn**

(a) hŷn
(b) hynaf



© WJEC CBAC Cyf.

**Adran B (Ysgrifennu - 40 marc)**

**B1. Prawf Ddarllen (5 marc)**

(i) Darllenwch y frawddeg ganlynol. Mae tri gwall ynddi. Chwiliwch am y **tri** gwall a'u cywiro nhw yn y tabl sy'n dilyn y frawddeg. [3]

| |
|---|
| Yn y gerdd hwn mae'r bardd yn defnyddio cyffelybiaethau i disgrifio ei bryderon ef yn efeithiol. |

| Gwall | Cywiriad |
|---|---|
| **y gerdd hwn** | **y gerdd hon** |
| **i disgrifio** | **i ddisgrifio** |
| **efeithiol** | **effeithiol** |

(ii) Pa **un** o'r canlynol sy'n gywir. Rhowch ✓ wrth yr ateb cywir. [1]

Rydw i wedi gofyn i chi ddewis yr ateb cywir.

(iii) Cywirwch y frawddeg ganlynol. Dylech ysgrifennu'r frawddeg yn gywir ar y llinell.

Doedd Aled ddim yn gwybod y bechgyn a welodd yn y parc.

Doedd Aled ddim yn adnabod y bechgyn a welodd yn y parc. / Doedd Aled ddim yn gwybod pwy oedd y bechgyn a welodd yn y parc.



© WJEC CBAC Cyf.

**ADRAN B2 (Ysgrifennu) (35 marc)**

| | ***CYFATHREBU A THREFN (YSTYR, PWRPASAU, DARLLENWYR a STRWYTHUR)*** | ***YSGRIFENNU'N GYWIR (IAITH, GRAMADEG, SILLAFU AC ATALNODI)*** |
|---|---|---|
| **Band 5** | **17–20 marc**<br>• Ysgrifennu aeddfed a threiddgar<br>• Ysgrifennu effeithiol sy'n cynnal diddordeb y darllenydd trwy gydol y darn<br>• Addasu'r cywair priodol yn hyderus i'r pwrpas/cynulleidfa<br>• Datblygu syniadau yn argyhoeddiadol gyda manylder, gwreiddioldeb a dychymyg<br>• Adeiladwaith sicr a chydlynol; strwythur soffistigedig i'r ysgrifennu | **13-15 marc**<br>• Defnyddio ystod eang o eirfa heriol ac addas yn hyderus i greu effaith neu i gyfleu ystyr benodol gywir<br>• Gafael sicr iawn ar ramadeg<br>• Defnyddio amrywiaeth o frawddegau addas ac effeithiol<br>• Defnydd eang o gystrawennau cywir<br>• Defnydd hyderus a chywir o ystod o atalnodi<br>• Sillafu yn gywir bron yn ddieithriad<br>• Gafael sicr iawn ar dreigladau<br>• Gafael sicr iawn ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid |
| **Band 4** | **13-16 marc**<br>• Ysgrifennu sy'n dangos yn glir y gallu i ddewis a dethol syniadau perthnasol a phriodol<br>• Ysgrifennu sy'n dangos dealltwriaeth sicr sut i ddal diddordeb y darllenydd<br>• Addasu'r cywair yn briodol a chyson i'r pwrpas/cynulleidfa<br>• Datblygu syniadau gyda manylder sy'n argyhoeddi a cheir peth gwreiddioldeb a dychymyg<br>• Ysgrifennu wedi ei strwythuro'n bwrpasol a'i drefnu'n eglur i roi dilyniant rhwydd a llyfn | **10-12 marc**<br>• Defnyddio ystod eang o eirfa yn gywir<br>• Gafael sicr ar ramadeg<br>• Defnyddio amrywiaeth o frawddegau i greu effeithiau arbennig<br>• Defnyddio ystod dda o gystrawennau'n gywir<br>• Defnydd cywir o ystod o atalnodi<br>• Sillafu sicr<br>• Gafael sicr ar dreigladau<br>• Gafael sicr ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid |
| **Band 3** | **9-12 marc**<br>• Ysgrifennu cydlynol a diddorol ar y cyfan<br>• Ymwybyddiaeth glir sut i ddal diddordeb y darllenydd<br>• Cywair yn briodol ac yn addas ar y cyfan i'r pwrpas/cynulleidfa<br>• Syniadau sy'n dangos datblygiad a cheir rhai cyffyrddiadau diddorol yn yr ysgrifennu<br>• Gwaith trefnus sy'n rhoi dilyniant a strwythur | **7-9 marc**<br>• Defnyddio ystod dda o eirfa yn eithaf cywir<br>• Gafael gyson ar ramadeg ar y cyfan<br>• Defnyddio amrywiaeth o frawddegau<br>• Defnyddio ystod o gystrawennau'n gywir ar y cyfan<br>• Defnydd cywir ar y cyfan o ystod o atalnodi<br>• Sillafu mwyafrif y geiriau'n gywir<br>• Mwyafrif y treigladau yn gywir<br>• Mwyafrif y berfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid yn gywir |



© WJEC CBAC Cyf.

| | *CYFATHREBU A THREFN (YSTYR, PWRPASAU, DARLLENWYR a STRWYTHUR)* | *YSGRIFENNU'N GYWIR (IAITH, GRAMADEG, SILLAFU AC ATALNODI)* |
|---|---|---|
| **Band 2** | **5-8 marc**<br>• Peth ysgrifennu cydlynol<br>• Peth ymwybyddiaeth o sut i greu effaith i ddal diddordeb y darllenydd<br>• Ymdrech glir i addasu cywair i bwrpas/darllenydd<br>• Datblygu rhai syniadau gydag ambell gyffyrddiad diddorol<br>• Peth trefn ar y gwaith a pheth dilyniant i syniadau | **4-6 marc**<br>• Defnyddio peth ystod o eirfa<br>• Gafael anghyson ar ramadeg<br>• Amrywio brawddegau rywfaint<br>• Peth gafael ar gystrawen<br>• Peth gafael ar ystod o atalnodi<br>• Sillafu yn eithaf cywir<br>• Treigladau yn eithaf cywir<br>• Berfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid yn eithaf cywir |
| **Band 1** | **1-4 marc**<br>• Ysgrifennu cydlynol elfennol<br>• Ymwybyddiaeth gyfyngedig o'r darllenydd<br>• Peth ymdrech i addasu cywair i bwrpas/cynulleidfa<br>• Peth cynnwys perthnasol er yn anghyson<br>• Trefn elfennol a dilyniant syml i syniadau | **1-3 marc**<br>• Ystod gyfyngedig o eirfa<br>• Gafael gyfyngedig ar ramadeg<br>• Defnyddio ystod gyfyngedig o frawddegau<br>• Gafael gyfyngedig ar gystrawen<br>• Peth ymdrech i atalnodi<br>• Sillafu rhai geiriau yn gywir<br>• Gafael gyfyngedig ar dreigladau<br>• Gafael gyfyngedig ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid |
| | Dim sy'n haeddu ei wobrwyo | |

**Mewn tasgau esbonio, disgwylir i ymgeiswyr resymu ac egluro ar sail deall a chyfuno syniadau / gwybodaeth sydd wedi eu cywain o'r testunau darllen ac o brofiadau personol.**



© WJEC CBAC Cyf.